**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A TAI**
**14 RHAGFYR 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gilliam Brockley, Tina Claydon, Geoff Collett, Rosetta Dolphin, David Evans, Ray Hughes, Kevin Rush, Dale Selvester a Linda Thew

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Bernie Attridge (yn lle Pam Banks)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd: Marion Bateman yn bresennol fel arsylwr.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden); Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cryf gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio), Prif Weithredwr, Prif Gyfrifwyr (Cyllid Corfforaethol), Uwch Reolwr Tai ac Atal, Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Tîm Perfformiad Busnes (Tai ac Asedau), Rheolwr Gwasanaeth – Tai, Lles a Chymunedau , Rheolwr Cyllid Strategol (Cyfrifeg Rheoli), Syrfëwr Contractau (Rheoli Asedau Tai), Rheolwr Cyllid Strategol - Strategaeth Ariannol ac Yswiriant, Rheolwr Gwasanaethau Rhaglen Tai

## 7. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 8. COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022 eu cymeradwyo fel cofnod cywir, a'u cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'r Cynghorydd Dale Selvester.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 9. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried.

Rhoddodd y Rheolwr Budd-daliadau'r wybodaeth ddiweddaraf ar y camau gweithredu sy'n ymwneud â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Dywedodd fod Gwasanaethau Pwyllgorau ar hyn o bryd yn adolygu adroddiadau blaenorol i Aelodau ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac y byddai diweddariad yn cael ei roi i Aelodau ar ôl y cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion, fel y'i hamlinellwyd o fewn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'u heilio gan y Cynghorydd Dale Selvester.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan fod yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 15 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**10. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A GOSOD CYLLIDEB 2023-24 (CAM 2)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2022/23 wrth aros am Setliad Llywodraeth Leol Cymru Dros Dro a'r broses pennu cyllideb ffurfiol.

Cafwyd cyflwyniad manwl gan y Rheolwr Gwasanaeth – Tai, Lles a Chymunedau, Rheolwr Gwasanaeth – Tai ac Atal a Rheolwr Rhaglen Tai a Chyflenwi Strategol a oedd yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Nodyn i'ch atgoffa o Sefyllfa Gyllideb y Cyngor
- Pwysau o ran Costau / Gostyngiadau Cyllideb / Effeithlonrwydd y Gorffennol:
- Trefn y Gyllideb – Cam 2
- Trefn y Gyllideb – Cam 3 (Terfynol)
- Y Camau Nesaf

Yn dilyn y cyflwyniad, ymatebodd swyddogion ac Aelodau Cabinet i gwestiynau a sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor.

Mynegodd y Cynghorydd Bernie Attridge bryderon ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor nad oedd yn teimlo ei bod yn ddigonol er mwyn i graffu priodol gael ei wneud. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod gwybodaeth wedi'i rhannu gyda'r holl Aelodau yn ystod y sesiynau gweithdy a bod y wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r Rhaglen yn manylu ar yr holl wybodaeth berthnasol o ran y gyllideb a phwysau o ran costau.

Cafodd yr argymhellion, fel y’i hamlinellwyd o fewn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd David Evans a’u heilio gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu casglu a'u rhannu â'r Cabinet cyn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr, 2022.

## 11. CYNLLUN BUSNES ARIANNOL 30 BLYNEDD Y CYFRIF REFENIW TAI

Rhoddodd y Prif Gyfrifydd gyflwyniad manwl a oedd yn trafod y meysydd canlynol:-

- Sut rydym yn cymharu ag awdurdodau eraill sy'n dal stoc.
- Gwerth am Arian
- Polisi Rhenti Llywodraeth Cymru
- Modelu Incwm.
- Chwyddiant Rhent Arfaethedig o 5% i bob tenant.
- Effaith Codiad Rhent a garejys.
- Effaith gosod rhenti yn is na'r hyn a ganiateir
- Taliadau gwasanaeth
- Pwysau Afreolus
- Pwysau rheoledig wedi'u cynnwys yn y cynllun gwasanaeth
- Yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd
- Benthyca darbodus a thalu'n ôl dros 50 mlynedd
- Lefel y gronfa wrth gefn arfaethedig o 7%

Mynegodd y Cynghorwyr Rosetta Dolphin a Bernie Attridge eu pryderon bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu pennu ar 7% pan oedd y cyfartaledd yn 3%.

Ychwanegodd y Prif Gyfrifydd ei bod yn ofyniad cyfreithiol iddynt gadw cronfeydd wrth gefn ar 3%, ond eu bod wedi’u pennu ar 7% i ddiogelu’r cyngor rhag pwysau o ran costau yn y dyfodol, h.y. dyfarniadau cyflog.

Gan ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Attridge, cytunodd y Cynghorydd Sean Bibby, yr Aelod Cabinet Tai ac Adfywio, y gellid ystyried, yn ystod y flwyddyn, defnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn sydd ar gael er mwyn defnyddio eiddo gwag ychwanegol ledled Sir y Fflint.

Cynigiwyd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ynghyd ag argymhelliad ychwanegol i ofyn i'r Cabinet ystyried defnyddio'r arian wrth gefn sydd ar gael yn ystod y flwyddyn os yw’n bosibl, gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'i eilio gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi Cynllun Busnes Ariannol 30 mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai a'r gyllideb ar gyfer 2023/24, fel y nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau; a

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet y dylid ystyried, yn ystod y flwyddyn, defnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn sydd ar gael er mwyn defnyddio eiddo gwag ychwanegol ledled Sir y Fflint.

## 12. Y STRATEGAETH DAI

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglen Tai a Chyflenwi Strategol y wybodaeth ddiweddaraf flynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Tai Lleol 2019-24. Roedd cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Dai a oedd yn nodi 3 blaenoriaeth gyda meysydd allweddol i weithredu arnynt o dan bob blaenoriaeth, fel a ganlyn:-

- Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math cywir o gartrefi yn y lleoliad cywir
- Darparu cymorth a sicrhau bod pobl yn byw ac yn aros yn y math cywir o gartref
- Gwella ansawdd a chynaliadwyedd cartrefi

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bernie Attridge ynghylch y gostyngiad yn y targed ar gyfer nifer yr eiddo i'w hadeiladu, eglurodd y Rheolwr Rhaglen Tai a Chyflenwi Strategol fod y galw yn cael ei lywio gan faint o dir oedd ym mherchnogaeth y Cyngor a'i bod yn bosib i'r Cyngor gaffael rhagor o eiddo a chynyddu'r targed pan fo hynny'n bosibl.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal hefyd nad oedd yn credu bod Un Llwybr Mynediad at Dai yn rhwystr i'r Cyngor allu rhentu eiddo yn gyflym.

Cafodd yr argymhelliad, fel y'i hamlinellwyd o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge, a'i eilio gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Dai mis Hydref 2022.

## 13. PROSBECTWS ANGHENION TAI SIR Y FFLINT

Cyn ystyried yr eitem, roedd y Cynghorydd Bernie Attridge wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a ddylid ystyried yr adroddiad mewn sesiwn agored. Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi ceisio cyngor cyfreithiol gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) a oedd wedi cadarnhau na ddylai unrhyw wybodaeth yn yr adroddiad gael ei heithrio rhag trafodaeth mewn sesiwn agored. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Pwyllgor ym mis Hydref 2021 a'i fod yn fras yr un adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Attridge, er ei fod yn diolch i'r swyddogion am y cyngor, nad oedd yn derbyn y dylai'r wybodaeth yn yr adroddiad fod wedi'i chyhoeddi cyn ymgynghori ag Aelodau lleol.

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglen Tai a Chyflenwi Strategol Brosbectws Anghenion Tai Sir y Fflint a oedd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru. Nid oedd y fformat a'r cynnwys wedi newid yn sylweddol i newid y cyfeiriad a nodwyd yn ei

iteriad cyntaf. Roedd y newidiadau a nodwyd yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r galw cynyddol am Dai Cymdeithasol o'r gofrestr tai a dyletswyddau digartrefedd.

Mynegodd y Cadeirydd bryderon ynghylch y datblygiad a restrwyd ar gyfer Penarlâg/Aston a oedd y tu allan i ffin yr anheddiad ac a oedd wedi wynebu agwedd negyddol yn y gorffennol gan drigolion yn ystod cyngor cyn gwneud cais. Siaradodd y Cynghorydd Attridge o blaid y pryderon a dywedodd y dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) fod yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor a deall yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl ganddynt fel partneriaid.

Gan ymateb, gofynnodd y Cynghorydd Sean Bibby, Aelod Cabinet Tai ac Adfywio, i gyfarfod gael ei drefnu rhyngddo ef a'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu yn cyd-fynd â'r Prosbectws Tai a'r CDLl.

Cafodd yr argymhelliad, fel y'i hamlinellwyd o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'i eilio gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys Prosbectws Anghenion Tai Sir y Fflint.

## 14. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.12 pm)

……………………………………….
**Cadeirydd**